OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 No. 352

## Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-orllewin (Cymru) 2021

## RHAN 5

### Ariannu

**Cyfrifo gofynion cyllideb**

**16.**—(1) Ar gyfer pob blwyddyn ariannol rhaid i CBC y De-orllewin gyfrifo'r symiau a ddisgrifir ym mharagraff (2) sydd i'w priodoli i—

(a) ei swyddogaethau cynllunio strategol (gan gynnwys cyfran briodol o gostau gweinyddu a gorbenion eraill), a

(b) ei swyddogaethau eraill.

(2) Y symiau y mae rhaid i'r CBC eu cyfrifo yw—

(a) y swm y mae'r CBC yn amcangyfrif y bydd yn ei wario mewn cysylltiad â'r flwyddyn ariannol wrth arfer ei swyddogaethau (gan gynnwys gwariant ar weinyddu a gorbenion eraill);

(b) y swm y mae'r CBC yn ystyried ei fod yn briodol ei godi ar gyfer cronfa ariannol wrth gefn mewn cysylltiad â'r flwyddyn ariannol;

(c) y swm y mae'r CBC yn ystyried ei fod yn briodol ei gadw fel cronfa wrth gefn i dalu am y gwariant y mae'n ystyried yr eir iddo mewn cysylltiad â blynyddoedd ariannol i ddod;

(d) unrhyw swm y mae'r CBC yn ystyried ei fod yn angenrheidiol i dalu unrhyw rwymedigaethau sydd heb eu talu mewn cysylltiad ag unrhyw flwyddyn ariannol gynharach.

(3) Ar gyfer pob blwyddyn ariannol, rhaid i CBC y De-orllewin hefyd gyfrifo cyfanswm cyfanredol unrhyw symiau y mae'n amcangyfrif y bydd yn eu cael o ffynonellau eraill ac eithrio'r cynghorau cyfansoddol, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Benfro sydd i'w priodoli i—

(a) ei swyddogaethau cynllunio strategol, a

(b) ei swyddogaethau eraill.

(4) Pan fo cyfanswm y symiau a gyfrifir ar gyfer blwyddyn ariannol o dan baragraff (1)(a) yn fwy na'r swm a gyfrifir ar gyfer y flwyddyn honno o dan baragraff (3)(a), y swm ychwanegol hwnnw yw gofyniad cyllideb cynllunio strategol CBC y De-orllewin ar gyfer y flwyddyn ariannol.

(5) Pan fo cyfanswm y symiau a gyfrifir ar gyfer blwyddyn ariannol o dan baragraff (1)(b) yn fwy na'r swm a gyfrifir ar gyfer y flwyddyn honno o dan baragraff (3)(b), y swm ychwanegol hwnnw yw gofyniad cyllideb cyffredinol CBC y De-orllewin ar gyfer y flwyddyn ariannol.

(6) Rhaid i CBC y De-orllewin—

(a) cynnal y cyfrifiadau o dan baragraffau (1) a (3), a

(b) cytuno ar y cyfrifiadau hynny mewn cyfarfod,

yn ddim hwyrach na 31 Ionawr ym mhob blwyddyn ariannol flaenorol.

(7) Mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol gyntaf, mae paragraff (6) yn gymwys fel pe bai "31 Ionawr 2022" wedi ei roi yn lle "31 Ionawr ym mhob blwyddyn ariannol flaenorol".

(8) Caiff CBC y De-orllewin ddiwygio'r cyfrifiadau a gynhelir o dan baragraffau (1) a (3) ar unrhyw adeg cyn diwedd y flwyddyn ariannol y maent yn ymwneud â hi a chaniateir diwygio gofyniad cyllideb cyffredinol, neu ofyniad cyllideb cynllunio strategol, CBC y De-orllewin o ganlyniad i hynny.

(9) Rhaid cytuno ar unrhyw gyfrifiadau diwygiedig mewn cyfarfod o CBC y De-orllewin.

**Ariannu gofyniad cyllideb**

**17.**—(1) Rhaid i ofyniad cyllideb cyffredinol CBC y De-orllewin gael ei dalu i CBC y De-orllewin gan y cynghorau cyfansoddol, ac mae'r gyfran o'r swm hwnnw sy'n daladwy gan bob cyngor cyfansoddol i'w phennu drwy gytundeb unfrydol yr aelodau cyngor.

(2) Rhaid i ofyniad cyllideb cynllunio strategol CBC y De-orllewin gael ei dalu i CBC y De-orllewin gan y cynghorau cyfansoddol, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, ac mae'r gyfran o'r swm hwnnw sy'n daladwy gan bob cyngor cyfansoddol a chan yr Awdurdod i'w phennu drwy gytundeb unfrydol yr aelodau.

(3) Pan na fo'n bosibl dod i gytundeb o ran y cyfrannau sy'n daladwy o dan baragraff (1) neu (2), caiff Gweinidogion Cymru drwy gyfarwyddyd bennu'r gyfran sy'n daladwy gan bob cyngor cyfansoddol neu bob cyngor cyfansoddol, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

(4) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i ofyniad cyllideb cyffredinol, neu ofyniad cyllideb cynllunio strategol, a ddiwygiwyd o dan baragraff (8) o reoliad 16 fel y mae'n gymwys i ofyniad cyllideb a bennwyd yn wreiddiol o dan y rheoliad hwnnw.